

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	29 Mehefin 2021
Aelod Arweiniol	Y Cyngorydd Richard Mainon Y Cyngorydd Mark Young (aelod arweiniol y Flaenoriaeth Gorfforaethol)
Awdur yr Adroddiad:	Catrin Roberts, Rheolwr Gwasanaethau AD
Teitl	Gweithredu i Leihau Cam-Drin Domestig

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad bras ar gynnydd Blaenoriaeth Gorfforaethol Gweithredu i Leihau Cam-drin Domestig ac mae hefyd yn cynnwys drafft o Bolisi Cam-drin Domestig ar gyfer gweithwyr er mwyn i'r Cabinet ei fabwysiadu.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Pwrpas yr adroddiad yw:

- (a) Rhoi diweddariad i'r Cabinet ar gynnydd Blaenoriaeth Gorfforaethol Gweithredu i Leihau Cam-drin Domestig
- (b) Er mwyn i'r Cabinet fabwysiadu'r Polisi Cam-drin Domestig yn ffurfiol ar gyfer y Cyngor

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod Polisi Cam-drin Domestig ar gyfer gweithwyr yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y Cyngor gan y Cabinet.

4. Manylion yr Adroddiad

Cytunwyd ar yr achos busnes terfynol ar gyfer blaenoriaeth Gweithredu i Leihau Cam-drin Domestig ym mis Hydref 2019 ac er bod gwaith ar y prosiect wedi ei oedi ar y dechrau oherwydd COVID, er mis Medi 2020 mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud.

Roedd 13 o ffrydiau gwaith yn rhan o'r prosiect ac mae gwaith sydd wedi ei wneud yn y 6 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar 9 o'r ffrydiau gwaith hynny, sydd wedi eu cynnwys isod. Bydd gwaith yn mynd ymlaen ar y ffrydiau gwaith sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae swyddogion o'r rhan fwyaf o wasanaethau wedi bod yn rhan o'r prosiect dros y misoedd diwethaf a hoffai'r Bwrdd Prosiect ddiolch iddyn nhw am y gwaith mae nhw wedi ei wneud o ran symud y flaenoriaeth bwysig hon ymlaen.

Mae crynodeb bras o'r cynnydd isod:

Cyfathrebu a Chodi Ymwybyddiaeth (i gynnwys yr Ymgyrch Rhuban Gwyn): Mae cynllun gweithredu 12 mis cynhwysfawr wedi ei ddatblygu er mwyn codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig. Mae copi wedi'i atodi yn Atodiad A.

Ymyrraeth Gynnar- Plant: Mae dwy raglen hyfforddiant wedi eu nodi i gefnogi teuluoedd – rhaglenni DART a STAR sydd i'w darparu ar y cyd â'r Uned Ddiogelwch Cam-Drin Domestig. Yn anffodus nid yw'r cyrsiau wedi eu cychwyn eto oherwydd Covid.

Mae'r tîm prosiect hefyd yn edrych ar 3ydd opsiwn sef rhaglen bwrpasol wedi ei datblygu ar y cyd â Hafan Cymru:

Hyfforddiant Sbectwm i ysgolion: Mae'r hyfforddiant hwn wedi bod ar gael i ysgolion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dydy'r hyfforddiant ddim yn orfodol ac yn y gorffennol dydy pob ysgol ddim wedi cofrestru ar ei gyfer. Bellach cytunwyd y bydd Hafan Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor ar raglen hyfforddi dwy flynedd yn darparu perthnasau iach mewn ysgolion, gyda'r flaenoriaeth yn cael ei rhoi i ysgolion sydd heb gymryd rhan yn y gorffennol. Y cynllun ar hyn o bryd yw i hyn gychwyn cyn diwedd y flwyddyn academiaidd hon. Fodd bynnag, bydd hyn yn ddibynnol ar Covid ac ar sefyllfaoedd yn yr ysgolion.

Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu: Yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yw hyfforddiant Llywodraeth Cymru, sydd yn orfodol. Hyd yma mae'r cyngor wedi cwblhau lefel 1 gyda dyddiadau wedi eu pennu ar gyfer Lefel 2 a 3. Mae lefelau 2 a 3 ar gyfer y rheiny sydd yn gweithio gyda Cham-Drin Domestig yn ddyddiol ac mae AD yn gweithio gyda'r

gwasanaethau ar y rhestr o staff fydd angen yr hyfforddiant hwn. Bydd Arweinwyr Diogelu'r Cyngor hefyd yn cael eu cynnwys yn hyn.

Tai Gwneud Safiad: Mae polisi cam-drin domestig drafft ar gyfer trigolion ein adran dai wedi ei ysgrifennu gyda chynllun gweithredu atodol i'w roi ar waith.

Proses Ddiogelu Cyngor Sir Ddinbych: Yn sylfaenol i nifer o'r ffrydiau gwaith mae'r angen am broses eglur o ran adrodd am bryderon ynglŷn â cham-drin domestig. Mae proses ddrafft wedi ei datblygu sy'n ymgorffori'r broses gyfredol ar gyfer plant ac oedolion diamddiffyn.

Polisi cam-drin domestig Cyngor Sir Ddinbych: Mae polisi drafft wedi ei ddatblygu yn barod i'w fabwysiadu

Mynediad i staff yr Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig at Raglen Cymorth i Weithwyr Tasg fach i gefnogi staff yr Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig drwy roi mynediad iddynt at Raglen Cymorth i Weithwyr y Cyngor. Mae hyn yn bosib ac mae gan yr Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig ddiddordeb mewn parhau â hyn yn ogystal â chael mynediad at fwy o gefnogaeth ar gyfer eu staff gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.

Yn gyffredinol mae'r Prosiect ar y trywydd cywir ac rydym yn bwriadu lansio'r prosiect yn ffurfiol ym mis Mehefin / Gorffennaf eleni.

Polisi Cam-Drin Domestig ar gyfer Gweithwyr

Mae drafft Polisi Cam-Drin Domestig wedi ei ddatblygu i gefnogi gweithwyr sy'n dioddef cam-drin domestig neu sydd wedi profi cam-drin domestig yn y gorffennol. Mae'r polisi drafft wedi ei atodi yn Atodiad B. Mae'r polisi yn darparu enghreifftiau clir o beth sy'n cael ei ystyried yn Gam-drin Domestig yn unol â diffiniad y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

Mae hefyd yn darparu cyfarwyddyd i Reolwyr ar sut i adnabod arwyddion o gam-drin domestig a pha gefnogaeth sydd ar gael i'w staff.

Un opsiwn o ran cymorth yw darparu Absenoldeb oherwydd Cam-Drin Domestig. Byddai hwn yn ddyraniad un tro o hyd at 5 diwrnod o absenoldeb â thâl am resymau sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- mynd i apwyntiadau meddygol neu gwnsela
- mynd i achosion cyfreithiol
- chwilio am dŷ diogel
- ymweld â chynghorwyr cyfreithiol neu asiantaethau cymorth ar gyfer ailgartrefu neu aildrefnu gofal plant, neu ar gyfer apwyntiadau perthnasol; a
- materion o ganlyniad i drais teuluol

Gellir cymryd Absenoldeb oherwydd Cam-drin Domestig fel un bloc o hyd at 5 diwrnod neu fel cyfnodau ysbeidiol o absenoldeb, yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn a effeithiwyd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd hyn yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol drwy sicrhau fod staff yn cael eu cefnogi i fynychu gwaith a chyflawni eu dyletswyddau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn wedi eu nodi ac mae cyllid wedi ei ddarparu ar gyfer costau'r ffrydiau gwaith cyfathrebu, codi ymwybyddiaeth, a gwaith ymyrraeth gynnar. Hyd yma mae'r unig gost ar gyfer cymorth rheoli prosiectau. Bydd y rhan fwyaf o'r costau yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon wrth i ni gyflenwi rhaglenni Star a Dart.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Does dim Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer y Polisi hwn gan ei fod wedi ei ymgorffori i Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer y Prosiect.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r polisi hwn wedi ei gytuno gan Fwrdd Gweithredu i Leihau Cam-drin Domestig, y Tîm Arwain Strategol a'r Undebau Llafur. Cafodd ei drafod yn ffurfiol gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol ar 14 Mai 2021 a argymhellodd bod y Cabinet yn mabwysiadu'r polisi.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Does dim risg yn gysylltiedig â gweithredu'r polisi cyn belled â bod hyfforddiant a chymorth digonol yn cael ei roi i reolwyr.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae'r pŵer i wneud y penderfyniad yn dod o dan adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972.